

CYNGOR CYMUNED PENNAL

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth 28ain o Fawrth 2023 am 7yh yn y Ganolfan Pennal.

Presennol; Meirion Roberts (Cadeirydd) Rhys Parry, Aled Rees, James Brunton, Williams Rees, Kenneth Griffiths, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) Deilwen Breese a Huw T Jones

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Meirion Roberts.
2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 17eg Ionawr ar gynnig Cyng.James Brunton a'l eilio gan Keneth Griffiths.

Gofynnwyd i Huw gymryd cofnodion y cyfarfod.

3. Materion yn codi – ac hefyd cyfeiriwyd at y materion canlynol;

- Super Audit – dywedodd Deilwen fod hyn bellach wedi ei sortio.
- Deffibiwlator – adroddodd Deilwen ei fod bellach wedi ei drwsio.
- Bagiau swnd - Dywedodd Cyng William Rees fod y bagiau ganddo yn barod.
- Dreaniau yn y pentref – adroddodd Dewi Owen y diweddaraf, a'i fod wedi siarad am hyn gyda Cyngor Gwynedd. Fodd bynnag roedd angen sylw i hyn eto.
- Mynwent yr Eglwys – adroddwyd eto fod rhaid cael sicrwydd y byddai y coed yn cael eu torri cyn y gallai y Cyngor Cymuned gymryd trosodd y cyfrifoldeb
- Menter y Glan – adroddodd Meirion Roberts am y datblygiadau diweddaraf. Roedd llawer iawn o waith gwirfoddol wedi mynd ymlaen yno. Diolchwyd yn fawr iawn i bawb.
 - Biniau baw cwn - roedd angen un ger lle chwarae Maesteg – addawodd Dewi Owen fynd ar ol hyn.
 - Llinellau ar y ffordd yn y maes parcio yn Cwrt – addawodd Aled Rees i geisio datrys hyn. Dywedodd mai Cyngor Gwynedd sydd perchen, ond fod y gweithredoedd ar goll. Hyn i'w drafod eto.
 - Gyda'r garafan static wedi ei lleoli yn Cwm Sylwi, lle roedd yn ymddangos nad oedd cais cynllunio wedi ei wneud – dywedodd Dewi Owen ei fod wedi siarad gyda Jane Jones o'r Parc Cenedlaethol. Nodwyd hefyd fod ail garafan gyferbyn a'r Rheithordy. Gofynnwyd i Huw ysgrifennu i'r Parc Cenedlaethol ynglyn a hyn.

4. Materion Cyllid.

- Cytunwyd i dalu anfonebau Archwilio Cymru am £200 a H G Web Designs am £250.
- Cytunwyd ar bris Clive Jones i dorri gwair y Marian, sef £749.70 + TAW. Roedd pawb ar ddeall fod y gwair yn cael ei dorri pob pythefnos, ond roedd angen eglurhad am yr union gyfnod.
- Darllenwyd e bost Nia Wyn Thomas, Pennaeth Ysgol Pennal yn gofyn am gyfraniad tuag at brynu offer digidol newydd a chostau teithio. Cytunwyd ar gynnig Aled Rees a'i eilio gan Ken Griffiths i gyfraniad o £500, fyddai yn cael ei dalu ar ol cyfarfod nesaf.Gofynnwyd i Huw ymateb i e-bost Nia.
- Nodwyd fod angen anfoneb gan EW Owen a'i Chwmni oedd yn ymdrin a'r HMRC. Gofynnwyd i Huw i ymdrin a hyn.

- Nodwyd fod swm ychwanegol o gyflog a chostau yn ddyledus i Deilwen, a gwelwyd y byddai rhaid trafod hyn yn y cyfarfod nesaf, a bod y costau yma i ddod o flwyddyn ariannol 2023-24.

5. Unrhyw fater arall.

- Byddai'r cyfarfod nesaf yn Gyfarfod Blynyddol i'w gynnal Nos Wener 19eg o Fai.
- Etholwyd Rhys Parry yn Gadeirydd am y flwyddyn nesaf, a James Brunton yn Is-Gadeirydd. Cytunwyd y dylai hyn gael ei gadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol.
- Aethpwyd drwy rhestr o asedau y Cyngor Cymuned, sef cyfanswm o £17,000.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 8.15.